Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Argyfwng costau byw: canllawiau ar gyfer lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae

Cyngor ar beth i'w wneud os bydd angen i chi wneud newidiadau gweithredol, a ble i fynd am gymorth a chyngor pellach.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Rhagfyr 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Rhagfyr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Effeithiau Gweithredol

## Cyngor a Chymorth



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae’r cyngor hwn wedi’i ddrafftio i gefnogi lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae gydag effeithiau posibl yr argyfwng costau byw.

Nod y cyngor yw cefnogi lleoliadau i wneud penderfyniadau gweithredol sy’n briodol ac sy’n cyd-fynd â gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ynghyd â chyfeirio at ffynonellau eraill o gyngor a chymorth.

Cyn ceisio gwneud unrhyw newidiadau gweithredol, dylai lleoliadau sicrhau bod ganddynt ddarlun manwl a chyflawn o’u cyllid a lle, o bosibl, y gall arbedion cost gael eu gwneud. Dylid gwneud asesiad risg manwl ar gyfer unrhyw newidiadau gweithredol cyn eu rhoi ar waith.

# Effeithiau Gweithredol

## Sut alla i gydbwyso’r cynnydd mewn costau bwyd a’r angen i sicrhau bod plant yn cael prydau cytbwys a byrbrydau iach?

Mae yna amrywiaeth o fwyd a byrbrydau y gellir eu cynnig ac sy'n dal i fodloni canllawiau bwyta'n iach, fel sy’n cael eu nodi yn y ddogfen **Bwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**.

Mae’n glir iawn bod angen i blant gael y cydbwysedd cywir o egni a maethynnau er mwyn tyfu a datblygu’n iach, cynnal pwysau iach a helpu i ddiogelu eu hunain rhag clefydau penodol. Gall y lleoliad gofal plant chwarae rhan bwysig yn hyn o beth, drwy roi bwyd maethlon yn y dognau cywir a thrwy greu amgylchedd sy'n annog plant i ddatblygu agweddau cadarnhaol at fwyd a'u hiechyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gall pob plentyn o dan 5 oed sy'n mynychu cyfleusterau gofal dydd cymeradwy yng Nghymru dderbyn 189ml (1/3 peint) o laeth bob dydd, yn rhad ac am ddim o dan y **Cynllun Llaeth Meithrin**.

Mae'n bosibl i leoliadau gael grantiau i helpu i dalu am gostau bwyd.

## Sut alla i barhau i ddarparu ystod o weithgareddau chwarae a dysgu o ansawdd uchel i blant?

Mae plant yn mynychu lleoliadau gofal plant a chwarae i brofi amrywiaeth o brofiadau sy'n eu meithrin a'u cefnogi ac i roi cyfleoedd iddynt chwarae. Does dim presgripsiwn o ran pa weithgareddau y dylid eu cynnal na pha adnoddau y dylid eu defnyddio, ond mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd y gweithgareddau ac yn cynnig rhai pwyntiau allweddol i'w hystyried yn Safon 7, gan gynnwys pwysigrwydd chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd, a chwarae dan do ac yn yr awyr agored.

Mae darnau rhydd, er enghraifft, yn hanfodol i leoliad gofal plant neu chwarae ac i ddatblygiad cyfannol plant. Gall darnau rhydd fod yn unrhyw beth y gall plant ei ddefnyddio wrth chwarae: bocsys cardfwrdd, pibellau draen, potiau iogwrt, poteli llaeth plastig, brigau, cerrig bach, dail – mae'r rhestr yn ddiddiwedd. Gall eitemau bob dydd gefnogi chwarae a dysgu o ansawdd uchel ac nid oes raid cael adnoddau drud.

Mae cyngor pellach ar gael gan y ffynonellau a ganlyn:

- **Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)**
- **Blynyddoedd Cynnar Cymru** (lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar)
- **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru** (Meithrinfeydd dydd)
- **Clybiau Plant Cymru** (Clybiau y tu allan i'r ysgol a'r ddarpariaeth ar gyfer

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwyliau)
- **Mudiad Meithrin** (darpariaeth cyfrwng Cymraeg)
- **Chwarae Cymru** (Chwarae mynediad agored)

## Sut alla i drio arbed ynni a bodloni’r gofynion rheoleiddio?

Dylai lleoliadau ystyried sut maent yn defnyddio ynni ar hyn o bryd a pha un a ellir cymryd unrhyw gamau bach i leihau costau (diffodd goleuadau pan na fydd ystafelloedd yn cael eu defnyddio, defnyddio amserydd ar gyfer y gwres ac ati).

Dylid cynnal asesiad risg cyn gwneud unrhyw newid sylweddol yn y defnydd o gyfarpar fel boeleri, i wneud yn siŵr y gall gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael eu bodloni o hyd. Er enghraifft, os caiff boeleri eu diffodd dros y penwythnos, mae angen i leoliadau sicrhau eu bod yn cael eu troi ymlaen eto yn ddigon cynnar i allu cyrraedd tymheredd priodol ar gyfer dechrau’r sesiwn.

Mae'r gallu i storio bwyd yn ddiogel a chael dŵr cynnes yn cael ei nodi fel gofyniad o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac felly'r cyngor yw peidio â diffodd oergelloedd a boeleri.

Gall diffodd oergelloedd, dros dro hyd yn oed, gael effaith ar ddiogelwch bwyd, gan fod yn rhaid i oergelloedd gael tymheredd o lai na 5°C (yn ôl cyngor yr **Asiantaeth Safonau Bwyd**).

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnig cyngor ar fwyd mwy diogel i **fusnesau bach** yn ogystal â chanllaw penodol i **warchodwyr plant**.

Mae **Busnes Cymru** yn rhoi cyngor ar ddulliau i leihau'r defnydd o ynni sydd hefyd yn ecogyfeillgar.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Rwy'n warchodwr plant, a ydw i'n gallu treulio'r diwrnod mewn canolfan chwarae/gweithgareddau neu mewn cartref gwarchodwr plant arall i leihau fy nefnydd o ynni?

Mae gwarchodwyr plant yn cael eu diffinio fel unigolion sy'n darparu gwasanaeth o leoliad domestig, ac felly er y gall ymweliadau â chanolfannau chwarae/ gweithgareddau fod yn rhan o ddarpariaeth gwarchodwr plant, ni fyddai disgwyl y byddai gwarchodwr plant yn darparu diwrnod llawn o ofal o leoliad arall lle nad ydynt wedi eu cofrestru. Mae'n annhebygol iawn y byddai treulio drwy'r dydd mewn canolfan chwarae neu ganolfan weithgareddau'n rhoi amrywiaeth o brofiadau i blant - gan gynnwys amser i ymlacio – sy'n ddigonol i ddiwallu eu hanghenion.

Os byddwch yn dewis treulio unrhyw ran o'r diwrnod yng nghartref cyd-warchodwr plant cofrestredig, rhaid i chi a'ch cyd-warchodwr plant sicrhau bod yr holl ofynion sy'n ymwneud â'r nifer mwyaf posibl o blant dan eich gofal ar yr aelwyd ar unrhyw un adeg yn cael eu bodloni. Dylid hefyd hysbysu rhieni'r plant dan eich gofal ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i batrymau gweithio arferol y naill gwarchodwr a'r llall.

## Beth yw'r tymheredd lleiaf angenrheidiol a chyfreithiol ar gyfer ein lleoliad i staff a phlant?

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodi tymheredd o 18 gradd o leiaf ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae dan do.

Byddai angen i staff lleoliadau ystyried newidiadau i dymheredd yr amgylchedd y maen nhw'n gweithredu ynddo a'r gwasanaeth a'r gweithgareddau sydd ar gael. Gallai hyn gynnwys ystyried chwarae yn yr awyr agored, defnyddio system awyru, ac a yw plant wedi'u gwisgo'n briodol (yn enwedig a yw plant iau a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

babanod sy'n llai symudol yn ddigon cynnes).

## Mae gan fy lleoliad fan awyr agored. A oes cyfyngiad ar faint o amser y gall plant ei dreulio y tu allan yn y gaeaf, os yw'n gwisgo dillad priodol? A ydy hyn yn wahanol os yw rhan o'r man awyr agored wedi'i gorchuddio, ac felly'n gysgod rhag y glaw?

Rydyn ni'n annog darpariaeth awyr agored. Nid oes cyfyngiadau ar faint o amser y gellir ei dreulio yn yr awyr agored, ond dylai'r defnydd o ddarpariaeth awyr agored fod yn seiliedig ar nifer y plant sy'n derbyn gofal, yr amgylchedd a chyflwr y tywydd.

## A allwn ni ofyn i rieni ddarparu haenau ychwanegol o ddillad er mwyn i'w plant eu gwisgo os yw'n mynd yn oer?

Gellir gofyn i rieni ddarparu dillad ychwanegol i blant os teimlir bod angen, yn enwedig os oes cymysgedd o chwarae dan do ac yn yr awyr agored.

## A oes modd llacio cymhareb y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i helpu lleoliadau i ymdopi yn ystod y cyfnod hwn?

Nid oes cynlluniau i lacio unrhyw rai o ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar hyn o bryd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyngor a Chymorth

## Rwy wedi gwneud popeth o fewn fy ngallu, ond rwy methu fforddio'r costau cynyddol o hyd. Pa help ariannol sydd ar gael ar gyfer fy lleoliad?

Mae lleoliadau'n gallu elwa ar y cap ynni i fusnesau a fydd ar waith o fis Hydref tan fis Ebrill. Bydd yn cael ei adolygu ar ôl y dyddiad hwn.

Os ydych chi'n dal i bryderu am gostau ynni, bydden ni'n cynghori eich bod yn siarad â'ch cyflenwr ynni fel man cychwyn, a gofyn iddyn nhw a oes modd i chi drefnu cynllun talu.

Os ydych yn rhentu lleoliad, byddem yn eich cynghori i siarad â'ch landlord.

Mae cyngor pellach ar gyfer busnesau bach sy'n cael trafferth gyda biliau ynni ar gael gan **Cyngor ar Bopeth**. Gall lleoliadau gysylltu ag arweinydd gofal plant eu hawdurdod lleol a allai roi cyngor a chymorth.

Mae'n bosibl y bydd partneriaid **Cwlwm**, **Sefydliad Cymunedol yng Nghymru** a Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol yn gallu eich helpu i gael cymorth grantiau refeniw a chyfalaf sydd ar gael.

## Rwy'n poeni am effaith yr argyfwng ar iechyd meddwl a lles fy staff. Pa gymorth sydd ar gael?

Mae cymorth ar gyfer lleoliadau a staff ar gael drwy **Fframwaith Iechyd a Lles** Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae cymorth hefyd ar gael o'r ffynonellau canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- **Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)**
- **Blynyddoedd Cynnar Cymru** (lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar)
- **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru** (Meithrinfeydd dydd)
- **Clybiau Plant Cymru** (Clybiau y tu allan i'r ysgol a'r ddarpariaeth ar gyfer gwyliau)
- **Mudiad Meithrin** (darpariaeth cyfrwng Cymraeg)
- **Chwarae Cymru** (Chwarae mynediad agored)

Mae rhagor o **gyngor** ar gael gan Lywodraeth Cymru am sut i gael cymorth ar gyfer costau byw.

## Pa gefnogaeth sydd ar gael i rieni?

Gall Llywodraeth Cymru roi **cyngor** ar y cymorth sydd ar gael i helpu i dalu am ofal plant. Mae hynny'n cynnwys cyngor ar Ofal Plant Di-dreth a chymorth i fyfyrwyr.

Mae'n bosibl y bydd rhieni hefyd yn cael budd o'r cyngor sydd ar gael **gymorth ariannol mwy cyffredinol.**

## Sut mae cael help i gynllunio ar gyfer y gaeaf a digwyddiadau allai fod yn annisgwyl?

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu **Canllawiau i leoliadau addysg a gofal plant ar Gynllunio at Argyfyngau ac Ymateb iddynt**.

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau anstatudol i helpu pob lleoliad addysg a gofal plant i ymateb i ystod eang o argyfyngau. Er nad yw'n ymdrin â phob agwedd ar beth y dylai lleoliadau ei wneud mewn perthynas â chynllunio at

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

argyfyngau, mae'n nodi rhai meysydd allweddol y dylid eu hystyried ac yn rhoi cyngor arnyn nhw.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argyfwng-costau-byw-canllawiau-ar-gyfer-lleoliadau-gofal-plant-gwaith-chwarae-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.